Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

DYDDIAD: **11 Gorffennaf 2024**

TEITL: **Asesiad Cydymffurfiaeth Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol**

PWRPAS YR ADRODDIAD: **Er gwybodaeth**

CEFNDIR

Mae arweinwyr grŵp yn ddarostyngedig i ddwy ddyletswydd statudol newydd:

i. I gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau o'u grŵp
ii. I gydweithredu â'r Pwyllgor Safonau wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021: A62

Gellid ystyried bod arweinwyr grŵp yn dwyn anfri ar o fewn y swyddfa o dan god ymddygiad y cynghorwyr drwy beidio â chyflawni'r dyletswyddau; Nid yw dyletswydd yn gwneud arweinwyr grŵp yn atebol am ymddygiad eu haelodau.

Mae dyletswydd ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau i:

a) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau, a

b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch materion yn ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021: A63

Mae dyletswydd ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd i baratoi adroddiad blynyddol sydd:

a) yn rhaid cynnwys asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau, a

b) yn medru cynnwys argymhellion neu sylwadau ar lefelau cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd hyn

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar wahân wrth faterion gweithredol a bydd yn gofyn i Arweinwyr Grwpiau adrodd unwaith y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor wedi hynny yn cyfarfod â phob arweinydd grŵp yn anffurfiol i archwilio ei adroddiad.

Bydd adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys:

a) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd gan arweinwyr grwpiau i gyflawni'r ddyletswydd,
b) ei farn ynghylch a oes digon wedi'i wneud,
c) unrhyw argymhellion ynghylch yr hyn y gall arweinwyr grwpiau ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau,
d) unrhyw argymhellion ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i ddangos tystiolaeth o weithredoedd arweinwyr y grŵp;
e) unrhyw argymhellion ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i wella'r mecanwaith adrodd,
f) pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen, os yw hynny'n berthnasol,
g) unrhyw ddarnau o waith y gellid eu gwneud yn y dyfodol ac ati.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cwblhaodd arweinwyr grŵp eu hadroddiadau erbyn 15/4/24. Cynhaliwyd gweithdy gyda phob arweinydd grŵp yn unigol ar 29/4/24 gyda:

· Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)

· Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Democratiaid Rhyddfrydol)

· Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Grŵp annibynnol)

Asesodd y Pwyllgor i ba raddau yr oedd arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn :

1. cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp

2. cydweithredu â'r Pwyllgor i arfer ei swyddogaethau

3. ymgymryd ag unrhyw anghenion hyfforddiant

Asesiad y Pwyllgor oedd:

- bod arweinwyr y grwpiau wedi cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel wrth aelodau'r grŵp, ac wedi gwneud hynny mewn ffordd ystyrlon;
- bod Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn ymgysylltu ac yn cydweithio gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau;
- Mae'n gadarnhaol nad oes nifer uchel o atgyfeiriadau i PSOW;
- Cynnwys hyfforddiant gorfodol ar y templed cydymffurfio;
- Cynnwys hyfforddiant ychwanegol y mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn amdano ar y templed cydymffurfio;
- Dylai aelodau nad ydynt eisoes wedi gwneud hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol, wneud hynny (os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol)
- Bydd Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn rhannu adroddiadau PSOW ac APW gyda'u grŵp a thrafod mewn cyfarfodydd grŵp;

- Canfu Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol fod y cyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Monitro yn effeithiol iawn ac yn ddiolchgar iawn.
- Cynigiwyd y newidiadau canlynol i'r templed cydymffurfio:
    - Diwygio'r templed i'w gwneud yn haws i'w defnyddio ac i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau;
    - Aralleirio penawdau;
    - Rhoi mwy o strwythur iddo;
    - Blwch tystiolaeth sylwadau ie/na;
    - Sicrhau nad yw'r templed yn rhy ben agored;
    - Ychwanegu argymhellion y flwyddyn flaenorol i'r templed.

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION: Nodi'r sefyllfa bresennol a fydd yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol Moeseg a Safonau.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:
Mae'r argymhellion yn angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021.

Enw Cyswllt: **Elin Prysor**
Teitl : **Swyddog Monitro**
Dyddiad yr Adroddiad: **17 Mai 2024**
Acronymau: